# Cynnydd mawr mewn buddsoddiad dros y 5 mlynedd nesaf

Annwyl Gwsmer,

**Roeddwn i am fanteisio ar y cyfle hwn i esbonio i chi pam fod ein biliau'n cynyddu eleni a dros y pedair mlynedd nesaf. Nid yw'r biliau wedi cynyddu'n gyson â chwyddiant dros y 15 mlynedd diwethaf. Er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a delio â risgiau fel y rhai sydd wedi yn codi yn sgil newid hinsawdd, mae angen i ni gynyddu'r buddsoddiad yn ein seilwaith dŵr a dŵr gwastraff.**

Bydd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-2030 yn cynyddu'r buddsoddiad yn sylweddol dros y pum mlynedd nesaf, gan adlewyrchu'r gwelliannau y mae ein cwsmeriaid am eu gweld yn ogystal â'r amcanion sy'n bwysig i'r busnes.

I'n helpu ni i gyflawni hyn oll, byddwn ni'n cynyddu biliau cwsmeriaid 27% yn 2025, ac wedyn ar gyfradd is o lawer dros y 4 blynedd sy'n dilyn. Rwy'n gwybod na fydd hi'n hawdd i rai o'n cwsmeriaid ddelio â'r cynnydd mewn biliau, a byddwn ni'n parhau i wneud pob ymdrech i helpu'r rhai sy'n cael pethau'n anodd. Cofiwch gysylltu â ni os oes angen cymorth arnoch trwy fynd i **dwrcymru.com/cymorthgydabiliau.**

Rwy'n ymwybodol hefyd bod ein biliau gyda'r uchaf yn y sector. Eto, hoffwn esbonio'r rhesymau am hynny – mae hyn yn bennaf oherwydd y seilwaith dŵr gwastraff y bu angen i ni ei adeiladu mewn ardaloedd arfordirol yn sgil preifateiddio. Hyd ddiwedd y 1990au, roedd bron i 50% o garthion Cymru'n cael eu rhyddhau i'r môr, heb fawr ddim triniaeth. Ers hynny, mae ein buddsoddiad ni wedi helpui sicrhau bod mwy o draethau Baner Las nac erioed o'r blaen yng Nghymru. Ond mae yna ragor o waith i'w wneud, ac fel y gallwn wella ein gwasanaethau, addasu at newid hinsawdd, a gwneud rhagor i amddiffyn ein hafonydd a'n moroedd, mae angen i ni gynyddu lefel y buddsoddiad nawr.

### Dyma rhai o benawdau'r cynlluniau:

- Buddsoddi £4 biliwn mewn gwasanaethau – sydd gyfwerth â dros £3,000 yr aelwyd.
- £1.1 biliwn i wella ansawdd afonydd a chwtogi 30% ar weithrediad gorlifoedd storm.
- Gostyngiadau mawr mewn gollyngiadau, toriadau mewn cyflenwadau dŵr, digwyddiadau llygru a llifogydd carthion.
- £73 miliwn i gynorthwyo'r cwsmeriaid â'r incwm isaf sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau.
- Creu 2,000 o swyddi adeiladu ychwanegol yn ein cadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa n i gyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol yma.

Fel yr unig gwmni nid-er-elw yn y sector, rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf a buddsoddi at y dyfodol. Byddwn ni'n agored ac yn onest ynghylch sut y byddwn ni'n gwario'ch arian a beth rydyn ni'n ei gyflawni, gan rannu gwybodaeth â chi ynghylch sut mae pethau'n mynd a'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud ar bob cam o'r ffordd – ewch i **cynlluniaudwrcymru.com** am fanylion.

Yn gywir
Peter Perry | Prif Weithredwr